| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **26 MAI 2011** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **MESUR LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2011** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **YSTYRIED YR EFFAITH AR Y PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL (CYLLID)** |
| **GWEITHREDU :** | **PARATOI AR GYFER GWEITHREDU** |

**RHAGARWEINIAD**

Derbyniodd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 Gydsyniad Brenhinol ar 10 Mai. Mae'r rhan o'r mesur sy'n berthnasol i Bwyllgorau Archwilio ynghlwm wrth yr adroddiad hwn. Nid yw'r ddeddfwriaeth wedi cychwyn hyd yma; rwy'n deall y bwriedir iddo ddod i rym erbyn Mai 2012.

**CYLCH GORCHWYL**

Mae angen adolygu rhyw ychydig ar gylch gorchwyl y pwyllgor hwn ond nid oes angen ei ddiweddaru'n sylweddol er mwyn cydymffurfio gyda'r mesur. Mae'r awdurdod hwn wedi bod yn rhedeg Pwyllgor Archwilio yn unol ag arferion da am flynyddoedd lawer, felly ychydig iawn o newid sydd angen ei wneud.

**AELODAETH O BLITH CYNGHORWYR**

Ar hyn o bryd, mae Cyfansoddiad yr Awdurdod hwn yn gwahardd aelodau o'r Pwyllgor Gwaith rhag bod yn aelodau o'r Pwyllgor Archwilio.

Mae'r Mesur yn caniatáu (ond nid yw'n mynnu) i'r Pwyllgor Archwilio gynnwys aelod o'r Pwyllgor Gwaith, ar yr amod mai dim ond un aelod fydd yn gwasanaethu ac na fydd yn cadeirio'r Pwyllgor.

Gofynnir am sylwadau'r Pwyllgor ynghylch a fyddai'n ddymunol newid Cyfansoddiad y Cyngor i ganiatáu i aelod o'r Pwyllgor Gwaith eistedd ar y Pwyllgor Archwilio.

**AELODAETH GYFETHOLEDIG**

Mae darpariaeth newydd yn y mesur sy'n dweud bod rhaid cael aelodau cyfetholedig ar y Pwyllgor – o leiaf un, ond dim mwy nag un rhan o dair o'r aelodaeth. Byddai gan yr aelodau hyn hawl i bleidleisio a chadeirio'r Pwyllgor.

Disgwylir am ganllawiau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a all gynnwys canllawiau ar benodi aelodau cyfetholedig. Disgwylir i'r canllawiau hyn nodi'r angen i recriwtio pobl gyda sgiliau priodol i wasanaethu ar y Pwyllgor. Mae'n debygol o ddilyn arferion da proffesiynol fel canllawiau CIPFA ar pwyllgorau archwilio.

Yn ogystal â gwybodaeth am weithgareddau craidd y Cyngor a'r fframwaith rheoleiddiol y mae'n gweithredu y tu mewn iddo, mae canllawiau CIPFA yn cyfeirio at yr angen am sgiliau penodol a phrofiad o ran :-

- Llywodraethu da;
- Rheoli risg;
- Sicrwydd rheolaeth fewnol;
- Materion cyfrifo.

Mae'n debyg mai pobl gyda chefndir proffesiynol yn y maes cyfrifo, archwilio neu reoli risg neu a chanddynt brofiad o weithio yn y maes hwn fydd efo'r sgiliau hyn.

Gallai fod yn werthfawr recriwtio o un neu fwy o feysydd proffesiynol. Byddai'r Mesur yn caniatáu cyfethol un, dau, tri neu bedwar aelod cyfetholedig yn ogystal â'r deg aelod sy'n gynghorwyr, felly byddai modd recriwtio cydbwysedd o sgiliau.

Yn amodol ar yr hyn y bydd y canllawiau efallai yn ei ddweud efallai, rwy'n credu bod angen i'r aelodaeth daro cydbwysedd rhwng parhad ac annibyniaeth. Rhaid cael elfen o barhad o ran yr aelodau cyfetholedig a fydd yn gwasanaethau ar y pwyllgor fel bod modd iddynt ymgyfarwyddo gyda systemau a phrosesau'r awdurdod. Fodd bynnag, byddai gwasanaeth hir yn arwain at fod yn or-gyfarwydd ac efallai golli gwrthrychedd a'r gallu i herio. Byddwn yn argymell pedair blynedd fel y cyfnod gwasanaethu, unwaith ac am byth, ond gyda chyfnodau yn gorgyffwrdd ar gyfer gwahanol aelodau cyfetholedig. Byddai angen recriwtio mewn da bryd ar gyfer y Mesur a byddai'n werth gwneud hynny cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym.

Mae cwestiwn hefyd ynghylch cydnabyddiaeth. Erbyn hyn, mae modd talu lwfans i aelodau cyfetholedig. Mater i'r Cyngor llawn yw'r polisi ar y lwfansau i aelodau cyfetholedig hyd at yr uchafswm a bennwyd gan y Panel Cydnabyddiaeth Annibynnol ar gyfer Cymru. Ar hyn o bryd, yr uchafswm yw £1,200 y flwyddyn neu £2,230 ar gyfer y rheini sy'n cadeirio Pwyllgorau Safonau; nid yw'r Panel hyd yma wedi rhoi sylw i lwfansau aelodau cyfetholedig ar y Pwyllgor Archwilio. Hyd yma, nid yw'r Cyngor wedi mabwysiadu lwfansau ar gyfer unrhyw aelodau cyfetholedig. Serch hynny, efallai y bydd y Pwyllgor Archwilio yn dymuno mynegi barn ar y mater.

**PARATOI AR GYFER GWEITHREDU**

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y pwyntiau isod:-

**1.** Gwneud mân-newidiadau i'r cylch gorchwyl;

**2.** A ddylid newid y Cyfansoddiad i ganiatáu i aelod o'r Pwyllgor Gwaith wasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio (Argymhelliad : Dim angen; rydym eisoes yn dilyn arferion da);

**3.** Sawl aelod cyfetholedig y byddid yn dymuno eu cael ar y Pwyllgor- 1, 2, 3 neu 4 - gan gymryd y bydd 10 aelod etholedig. (Argymhelliad : Mwy nag un i ganiatáu amrywiaeth o sgiliau);

**4.** Pa sgiliau sydd eu hangen (Argymhelliad : o leiaf un aelod gyda chefndir yn y maes cyfrifeg, o leiaf un gyda chefndir yn y maes rheoli risg/archwilio/rheoleiddio);

**5.** Pa bryd i recriwtio (Argymhelliad : cyn gynted ag y bo modd unwaith y mae canllawiau neu ganllawiau drafft dibynadwy ar gael);

**6.** Mynegi barn ynghylch cydnabyddiaeth i aelodau cyfetholedig.

**DAVID ELIS-WILLIAMS**
**CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL (CYLLID)** **13 MAI 2011**

**MESUR LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2011**

**RHAN 6**

**PENNOD 2**

**PWYLLGORAU ARCHWILIO**

**81 Awdurdodau lleol i benodi pwyllgorau archwilio**

**(1)** Rhaid i awdurdod lleol benodi pwyllgor ("pwyllgor archwilio") –

**(a)** i arolygu materion ariannol yr awdurdod a chraffu arnynt;

**(b)** i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod;

**(c)** i adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol;

**(d)** i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny;

**(e)** i arolygu trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod; ac

**(f)** i adolygu'r datganiadau ariannol a lunnir gan yr awdurdod.

**(2)** Caiff awdurdod lleol roi i'w bwyllgor archwilio unrhyw swyddogaethau eraill y mae'r awdurdod o'r farn eu bod yn addas i'w harfer gan y cyfryw bwyllgor.

**(3)** Y pwyllgor archwilio sydd i benderfynu sut mae i arfer ei swyddogaethau.

**82 Aelodaeth**

**(1)** Mae awdurdod lleol i benodi aelodau ei bwyllgor archwilio.

**(2)** Rhaid i awdurdod lleol sicrhau –

**(a)** bod dwy ran o dair o leiaf o aelodau ei bwyllgor archwilio'n aelodau o'r awdurdod;

**(b)** bod un aelod o leiaf o'i bwyllgor archwilio'n aelod lleyg;

**(c)** nad oes mwy nag un o aelodau ei bwyllgor archwilio'n aelod o weithrediaeth yr awdurdod;

**(d)** nad yw aelod hyn ei weithrediaeth yn aelod o'i bwyllgor archwilio.

**(3)** Nid yw is-adran (2)(c) yn ei gwneud yn ofynnol i aelodaeth pwyllgor archwilio awdurdod lleol gynnwys aelod o weithrediaeth yr awdurdod.

**(4)** Nid yw penodi person yn aelod o bwyllgor archwilio yn cael effaith os bydd aelodaeth y pwyllgor yn mynd yn groes i is-adran (2) yn syth ar ôl penodi (p'un ai yn rhinwedd y penodi ai peidio).

**(5)** Mew nachos pan fo un person neu ragor, ar adeg neilltuol, i'w wneud neu i'w gwneud yn aelod neu'n aelodau o bwyllgor archwilio, neu beidio â body n aelod neu'n aelodau o bwyllgor archwilio, mae'r holl newidiadau hynny yn yr aelodaeth i'w hystyried wrth benderfynu a yw aelodaeth y pwyllgor yn mynd yn groes i is-adran (2).

**(6)** Mae gweithred gan bwyllgor archwilio'n annilys os yw aelodaeth y pwyllgor yn mynd yn groes i is-adran (2).

## 83 Trafodion etc

**(1)** Mae pwyllgor archwilio i benodi'r person sydd i gadeirio'r pwyllgor (a gaiff fod yn aelod o'r awdurdod neu'n aelod lleyg ond rhaid iddo beidio â bod yn aelod o grwp gweithrediaeth).

**(2)** Os nad oes unrhyw grwpiau gwrthblaid, caiff y person sydd i gadeirio'r pwyllgor archwilio fod yn aelod o grwp gweithrediaeth ond rhaid iddo beidio â bod yn aelod o weithrediaeth yr awdurdod lleol.

**(3)** Caiff holl aelodau pwyllgor archwilio bleidleisio ar unrhyw gwestiwn y mae'n dod i ran y pwyllgor i'w benderfynu.

**(4)** Caiff pwyllgor archwilio awdurdod lleol –

- **(a)** ei gwneud yn ofynnol i aelodau a swyddogion yr awdurdod ddod ger ei fron i ateb cwestiynau, a

- **(b)** gwahodd personau eraill i fynychu cyfarfodydd y pwyllgor.

**(5)** Mae dyletswydd ar unrhyw aelod o awdurdod lleol neu swyddog i awdurdod lleol i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad a osodir o dan is-adran (4)(a).

**(6)** Nid yw is-adran (5) yn ei gwneud yn orfodol i berson ateb unrhyw gwestiwn y byddai gan y person hawl i wrthod ei ateb mewn achosion llys, neu at ddibenion achosion llys, yng Nghymru a Lloegr.

**(7)** Mae pwyllgor archwilio i'w drin fel pe bai'n bwyllgor i brif gyngor at ddibenion Rhan 5A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (cael mynd i gyfarfodydd a chael gweld dogfennau awdurdodau, pwyllgorau ac is-bwyllgorau penodol).

**(8)** At ddibennion is-adrannau (1) a (2), mae i'r ymadroddion "grwp gweithrediaeth" a "grwp gwrthblaid" yr un ystyr ag yn adran 75.

**84 Cynnal cyfarfodydd : pa mor aml**

**(1)** Rhaid i bwyllgor archwilio gyfarfod unwaith ym mhob blwyddyn galendr.

**(2)** Rhaid i bwyllgor archwilio awdurdod lleol gyfarfod hefyd –

**(a)** os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu y dylai'r pwyllgor gyfarfod, neu

**(b)** os yw traean o leiaf o aelodau o'r pwyllgor yn hawlio cyfarfod drwy gyfrwng un neu ragor o hysbysiad ysgrifenedig a roddir i'r person sy'n cadeirio'r pwyllgor.

**(3)** Mae dyletswydd ar y person sy'n cadeirio pwyllgor archwilio i sicrhau bod cyfarfodydd y pwyllgor yn cael eu cynnal fel y mae is-adrannau (1) a (2) yn ei gwneud yn ofynnol.

**(4)** Nid yw'r adran hon yn atal pwyllgor archwilio rhag cyfarfod ac eithrio fel y mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol.

**85 Canllawiau**

**(1)** Caiff Gweinidogion Cymru roi canllawiau i awdurdodau lleol –

**(a)** ynghylch swyddogaethau pwyllgorau archwilio ac arfer y swyddogaethau hynny, neu

**(b)** ynghylch aelodaeth o bwyllgorau archwilio.

**(2)** Rhaid i awdurdod lleol a'i bwyllgor archwilio roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru o dan is-adran (1).

**86 Terfynu aelodaeth pan fo person yn peidio â bod yn aelod o awdurdod**

**(1)** Mae'r adran hon yn gymwys i berson (P) –

**(a)** a benodir yn aelod o bwyllgor archwilio awdurdod lleol, a

**(b)** sy'n aelod o'r awdurdod ar adeg y penodiad hwnnw.

**(2)** Os yw P yn peidio â bod yn aelod o'r awdurdod, mae P hefyd yn peidio â bod yn aelod o'r pwyllgor archwilio.

**(3)** Ond nid yw is-adran (2) yn gymwys os bydd P –

**(a)** yn peidio â bod yn aelod o'r awdurdod oherwydd iddo ymddeol, a

**(b)** yn cael ei ailethol yn aelod o'r awdurdod heb fod yn hywrach na diwrnod ei ymddeoliad.

**(4)** Mae is-adran (3) yn ddarostyngedig i reolau sefydlog yr awdurdod neu rai'r pwyllgor archwilio.

## 87 Dehongli etc

**(1)** Mae i ymadroddion a ddefnyddir yn y Bennod hon ac yn Rhan 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (neu mewn offeryn a wneir o dan y Rhan honno o'r Ddeddf honno) yr un ystyr yn y Bennod hon â'r ystyr sydd i'r ymadroddion cyfatebol Saesneg yn y Rhan honno o'r Ddeddf honno (neu sydd i'r ymadroddion Cymraeg neu i'r ymadroddion cyfatebol Saesneg yn yr offeryn hwnnw).

**(2)** Yn y Bennod hon –

ystyr "aelod hyn awdurdod lleol" ("senior member of a local authority") yw –

**(a)** yn achos awdurdod lleol sy'n gweithredu gweithrediaeth arweinydd a chabinet (Cymru), yr arweinydd gweithrediaeth;

**(b)** yn achos awdurdod lleol sy'n gweithredu gweithrediaeth maer a chabinet, y maer;

mae i "pwyllgor archwilio" ("audit committee") yw ystyr sydd iddo yn adran 81;

ystyr "aelod lleyg" ("lay member") yw person nad yw'n aelod o awdurdod lleol.

**(3)** Wrth gymhwyso'r Bennod hon i awdurdod lleol sy'n gweithredu trefniadau amgen –

**(a)** cyfeiriad at fwrdd yr awdurdod yw cyfeiriad at weithrediaeth yr awdurdod, a

**(b)** cyfeiriad at gadeirydd bwrdd yr awdurdod yw cyfeiriad at aelod hyn yr awdurdod.